

Tri pheth y gall y sector cyhoeddus eu gwneud

1. Cymunedoli.
2. Cydnabyddiaeth ariannol uniongyrchol o'r gwaith y mae cymunedau a sefydliadau cymunedol yn ei wneud.
3. Parch a chydabyddiaeth am effaith y gwaith hwnnw.

Sut

– enghreifftiau mewn llythrennau italig wedi'u darparu gan bartneriaid

Cymunedoli

Ar hyn o bryd mae cymorth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru wedi'i bwysoli'n drwm i gynorthwyo corfforaethau a chwmnïau preifat mawr sy'n tynnu incwm a chyfoeth o'n cymunedau i raddau helaeth.

Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, dylai cymorth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru gael ei ailgydbwyso i gynorthwyo mentrau sy'n eiddo i'r gymuned sy'n cadw ac yn lluosu incwm a chyfoeth yn lleol.

Llywodraeth Cymru

1. Ailgwmpasu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gynnwys ffocws ar bobl a chymunedau yn ogystal â gwasanaethau, gan orfodi gwasanaethau cyhoeddus i weithio gyda chymunedau (yn *ddaearyddol* neu *gymunedau o ddiddordeb/angen*) wrth gynllunio, darparu a gwerthuso effaith eu gwasanaethau a'u cyfleusterau a'r rhai a ddatblygir yn y gymuned ei hun. Monitro sut y mae'r cyfranogiad hwn yn gweithredu a pha effaith hirdymor, gynaliadwy y mae'n ei chael.
2. Rhoi arweiniad i gyrff cyhoeddus ar fodelau effeithiol ar gyfer gweithio gyda chymunedau a sefydliadau cymunedol yn seiliedig ar brofiad presennol (h.y. dangos beth mae gyrff cyhoeddus yn ei wneud orau, beth mae elusennau/y trydydd sector yn ei wneud orau, beth mae sefydliadau cymunedol yn ei wneud orau a beth mae pobl yn ei wneud orau eu hunain) a sut y mae angen darparu adnoddau ar gyfer y rhain.
3. Cyflwyno mesurau i fonitro'r cyllid a'r adnoddau y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn eu darparu i gymunedau a sefydliadau cymunedol ac effaith hirdymor, gynaliadwy hyn.

Un rhwystr i adeiladu cymunedau pwerus yw y bydd cyllid bob amser yn cael ei anelu at y rhai sydd â'r lleiaf a'r daith bellaf i fynd i wneud newid cynaliadwy. Ni fyddai strategaeth fuddsoddi fel hon, sy'n cosbi llwyddiant, yn bodoli mewn unrhyw faes arall, ond mewn gwaith cymunedol mae'r grwpiau mwyaf llwyddiannus ac effeithiol yn aml yn cael eu heithrio o raglenni ariannu. Buddsoddwch mewn modelau sy'n gweithio, fel y byddech mewn busnesau llwyddiannus, ac yna gallwn i gyd ddysgu o'u heffaith.

LLECHI | GLO | CEFN GWLAD



SLATE | COAL | COUNTRYSIDE

Datblygu model ar gyfer gweithio gyda chymunedau

Gwrando i ddeall blaenoriaethau cymdogaethau a chymunedau o ran canlyniadau, cryfderau, heriau

Cefnogi a buddsoddi mewn cryfderau, perthnasoedd a galluoedd lleol i gydgynhyrchu gweithredu sy'n seiliedig ar y gymdogaeth / gymuned.

Adeiladu cylchoedd dynamig a pherthynol o wrando, cynllunio, gwneud a dysgu gyda'i gilydd ar lefel hyperleol a chymunedau o ddiddordeb (fel hyn bydd dinasyddion a gwasanaethau'n gwella'n gynyddol o ran cydgynhyrchu canlyniadau cymdeithasol ystyrlon a gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol gyda phobl a chymunedau yn arwain)

Awdurdodau Lleol

1. Gweithio gyda phobl leol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn barhaus ar weithgareddau dan arweiniad y gymuned yn y sir a nodi cryfderau a bylchau. **Cefnogi'r cryfderau** ac adeiladu perthynas effeithiol â'r rhai sy'n meddu arnynt, gan weithio gyda nhw i nodi ffyrdd y gallai'r awdurdod lleol gefnogi cymunedau i fynd i'r afael â'r bylchau.
2. Peidiwch â gwneud pethau y mae cymunedau mewn sefyllfa well i'w gwneud eu hunain; a pheidiwch â gofyn i gymunedau wneud pethau y mae awdurdod lleol mewn sefyllfa well i'w gwneud; nodwch y gwahaniaeth rhwng y pethau hyn yn glir.
3. Buddsoddwch yn uniongyrchol mewn cymunedau pan fo'n ymarferol (h.y. nid drwy ddull cyfryngwr neu 'atgyfeirio') a hyrwyddo sgiliau a phrofiad lleol cynaliadwy ar gyfer datblygu cymunedol hirdymor.

Yng nghanol pandemig Covid, bu'r trydydd sector yn hynod ystwyth yn ein hymdrechion i gyrraedd a chynorthwyo cymunedau. Yn anffodus, roedd y diffyg cydnabyddiaeth wedi rhwystro unrhyw newid sylweddol ac rwy'n credu'n gryf y dylid bod wedi cael rhai newidiadau cadarnhaol ar ôl Covid. Mewn llawer o achosion yn y trydydd sector, mae endidau cymunedol ac elusennol yn pontio'r bylchau a adawyd gan gyrff statudol. Yn anffodus, mae hyn wedi dod yn norm, gyda banciau bwyd yn enghraifft amlwg. Pan fydd y system fudd-daliadau a pholisïau yn methu cymdeithas, mae banciau bwyd yn camu i mewn i helpu, ac rydym wedi dod i dderbyn hyn fel rhywbeth normal yn hytrach na mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol gyda pholisïau a ddylai fod yn cefnogi teuluoedd ac unigolion. Nid y broblem yw bod sefydliadau cymunedol ac elusennol yn gorfod codi'r darnau, ond yn hytrach mae teimlad nad yw eu gwaith rhagorol yn cael ei gydnabod a'i ddigolledu ac mae'r gyrff statudol yn dal i fethu cyrraedd ardaloedd.

Nid yw cydweithio'n costio ceiniog ac mae'n sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael o bob sector yn cael yr effaith fwyaf posibl. Ond ni allwch gydweithio os nad yw'r gwaith a wnewch yn cael ei gydnabod neu ei werthfawrogi.

Awdurdodau Iechyd

1. Dangoswch y ffyrdd yr ydych yn cydnabod pwysigrwydd llesiant cymunedol a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i sefydlu strategaethau i sicrhau bod llesiant wrth wraidd yr holl waith hybu iechyd.
2. Hyrwyddwch ddealltwriaeth realistig ymhlith gwasanaethau iechyd ynghylch yr hyn y gall elusennau/ y trydydd sector, sefydliadau cymunedol a grwpiau cymdeithasol/chwaraeon ei gynnig a pha adnoddau sydd eu hangen arnynt i allu cynnig hyn.
3. Ystyriwch fod atgyfeiriadau i elusennau/cymuned yn 'driniaeth': felly dylech bob amser wneud gwaith dilynol wrth atgyfeirio cleifion/defnyddwyr gwasanaethau i grwpiau'r trydydd sector a chymunedol er mwyn nodi a) a oedd yr atgyfeirio wedi digwydd, ac os nad oedd pam; b) pa wahaniaeth a wnaeth yr atgyfeirio; c) sut y gallai gwasanaethau iechyd gynorthwyo cymunedau i wneud yr atgyfeirio yn fwy effeithiol.

Cydnabyddiaeth ariannol

Adolygwch y dull o bresgripsiynu cymdeithasol ac olrhain yr adnoddau a ddefnyddir ar gyfer hyn. Mae cynifer o gynlluniau'r trydydd sector yn cael eu cynnal heb unrhyw arian cyhoeddus ac eto mae'n ymddangos bod disgwyliad gan y sector cyhoeddus y bydd elusennau ac eraill yn chwarae rhan ganolog wrth fynd i'r afael â materion iechyd sylfaenol. Nid dadl dros ddibyniaeth gytundebol yw hon, sy'n gallu dileu annibyniaeth ac ymatebolrwydd lleol, ond dadl dros rywfaint o gydnabyddiaeth ariannol uniongyrchol o gostau darparu cymorth o ansawdd mewn lleoliadau cymunedol.



Sefydliadau ac elusennau cymunedol

1. Wrth benodi staff, ystyriwch y gwerth a ddaw yn sgil pobl leol – rhwydweithiau a chysylltiadau, ymrwymiad, dealltwriaeth o'r cyd-destun ac effaith gynaliadwy a chynnwys hynny yn y meini prawf ar gyfer cyflogaeth. Lle y bo'n bosibl buddsoddwch yr adnodd (cyflogau ac ati..) yn y gymuned ei hun.
2. Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau am gymunedau a'r bobl sy'n byw ynddynt ond daliwch ati i wrando, hyd yn oed os ydych wedi gweithio mewn cymuned am ddegawdau. Cofiwch nad yw cyflwyno prosiectau i gymuned yr un peth â bod yn rhan ohoni neu wrando arni.
3. Dylech bob amser ystyried cyllid tymor byr yng nghyd-destun effaith hirdymor. Hyd yn oed os yw'r gwaith yn cael ei gyllido am gyfnod byr yn unig, ystyriwch pa newid y gellir ei gyflawni a fydd yn para'n hirach na'r cyllid.